

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ebrill 2016 – Mawrth 2020

Fformatau Hygyrch

Bydd y ddogfen hon a'r dogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ffurfiau Microsoft Word a PDF a hynny mewn ffont Arial maint 12 safonol. Bydd fformatau hygyrch eraill, gan gynnwys print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain, fersiwn hawdd ei ddarllen, fersiwn sain, fersiwn electronig a fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Tîm Amrywiaeth Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Wreccsam
LL11 1AY

Rhif Ffôn: 01978 292261

E-bost: onewrexham@wrexham.gov.uk



Cynnwys

<u>Adran</u>	<u>Tudalen</u>
Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	4
1. Cyflwyniad	5
2. Ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2011	6
3. Adborth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	7
4. Cyd-destun deddfwriaethol sy'n newid	7
5. Y Cyngor a Chynllun ein Cyngor	8
6. Newidiadau yn y boblogaeth a phroffil demograffig	8
7. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru – adborth ymchwil	9
8. Amcanion Cydraddoldeb Strategol	9
9. Prosesau sylfaenol: Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth; a Chaffael	21
10. Sicrhau Ansawdd: <ul style="list-style-type: none"> • Darparu • Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb • Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Cydymffurfio • Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Cyhoeddi • Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb • Monitro • Adolygu • Adrodd 	22
11. Rhagor o wybodaeth	24
12. Atodiadau	24
1. Sut y gwnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.	26
2. Diagram i ddangos sut mae'r CCS a Chynllun y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i bobl â nodweddion gwarchoddedig.	27
3. Dyletswyddau cyfreithiol penodol a nodir yn rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 [Cymru] 2011.	29
4. Gwybodaeth gefndir: Y Cyngor a'r Gymuned	29
5. Gwybodaeth ategol am bob Amcan Cydraddoldeb Strategol gan gynnwys dogfennau cefndir ac ymchwil.	32
6. Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb; a Grŵp Gwella Cydraddoldeb	37
7. Geirfa termau	37

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2016-20

Rhagair

Dyma ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam [CCS] 2016-20. Mae'n disgrifio sut y bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar gydraddoldeb a chefnogi pobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau dros y pedair blynedd nesaf [2016-20].

Mae adroddiadau cynnydd ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol 2012-16 ar gael yn: http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Rwy'n cydnabod bod cynnydd gwirioneddol wedi cael ei gyflawni ac mae hyn oherwydd yr ymrwymiad ar y cyd a'r gwaith caled gan holl adrannau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae hefyd yn iawn cydnabod bod yna feysydd parhaus i'w gwella os ydym am fynd i'r afael yn briodol â'r anghydraddoldebau a nodwyd ac a brofir gan lawer o bobl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r Cyngor yn parhau i ail-lunio ei wasanaethau niferus o fewn y cyfyngiadau a osodir gan y toriadau yn y gyllideb i lywodraeth leol. Mae hyn yn her sylweddol i ni. Rwy'n falch mai un o gonglfeini ein hymagwedd at y toriadau hyn fu i flaenoriaethu'r unigolion diamddiffyn. Mae ein hymrwymiad i'r broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ein galluogi i liniaru effaith y toriadau cyn belled ag y gallwn.

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw sicrhau bod Wrecsam a'i phobl yn derbyn cefnogaeth ac yn cael eu galluogi i wireddu eu potensial ac i ffynnu. Drwy'r gwaith rydym yn ei wneud i ddileu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau cymunedol da, rydym yn prysur geisio gwneud y weledigaeth honno'n realiti i bawb yn y Fwrdeistref Sirol.

Y Cynghorydd Ronnie Prince, Aelod Arweiniol dros Bobl - Gwasanaethau Ieuencid a Gwrth Diodi

Crynodeb Gweithredol:

Yn ystod 2015-16 buom yn ymgynghori ag ystod eang o bobl i adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol presennol a nodi camau gweithredu allweddol.

Roedd ein hymgyngoreion yn cynnwys:

- Y cyhoedd
- Pobl â nodweddion gwarchoddedig;
- Sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol;
- Staff; ac
- Aelodau Etholedig.

Gweler yr Adroddiad Ymgynghoriad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Gan ddefnyddio adborth o'r ymgynghoriad a gwybodaeth o ddata y gwnaethom ei ddadansoddi, rydym wedi cadarnhau bod ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol presennol yn dal yn berthnasol. Sef:

- Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog;
- Lleihau anghydraddoldeb mewn ieuchyd;
- Lleihau anghydraddoldeb mewn addysg;
- Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol;
- Lleihau anghydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a llais; a
- Lleihau anghydraddoldeb wrth gael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd.

Fe wnaeth adborth gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Cymru) ar y pedair blynedd cyntaf o weithredu Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru nodi nifer o feysydd i'w gwella mewn perthynas â chydraddoldeb:

- Monitro a dadansoddi cydraddoldeb;
- Rheoli perfformiad i gynnwys canlyniadau cydraddoldeb; ac
- Effeithiau cronol yn cael eu nodi ac yn cael sylw.

Bydd y meysydd gwella hyn hefyd yn cael eu dwyn ymlaen drwy Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20.

Mae manylion ynghylch sut y gwnaethom ddatblygu'r CCS yn **Atodiad 1**.

Cam Gweithredu:

I wneud gwahaniaeth cadarnhaol i leihau anghydraddoldebau a allai godi yn sgil cyflwyno Cynllun y Cyngor byddwn yn:

- Gweithredu nifer o strategaethau allweddol sy'n targedu'r rhai mwyaf diamddiffyn;
- Gwella monitro a dadansoddi cydraddoldeb;
- Parhau i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb; a
- Chymryd camau gweithredu penodol ymlaen sy'n codi o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Manylir ar y rhain yn y cynllun gweithredu yn

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Darparu:

- Byddwn yn darparu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn trwy gynlluniau gwasanaeth adrannol.

Monitro ac adolygu:

- Mae cynlluniau gwasanaeth adrannol yn cael eu hadolygu bob chwarter, yn cynnwys cynnydd ar gamau gweithredu i gefnogi darparu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Mae adroddiadau blynyddol yn cael eu cymryd gerbron y Pwyllgor Archwilio Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau ac i'r Bwrdd Gweithredol. Maen nhw hefyd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam [2016-20]

1. Cyflwyniad

Pam fod gennym Gynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)?

- Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru). Mae'n diwygio ac yn diweddarau ein cynllun blaenorol ac yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb. Mae hefyd yn nodi i'r cyhoedd, Aelodau Etholedig, partneriaid a gweithwyr, pa gamau rydym am eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn Wreccsam.

Wrth ysgrifennu'r cynllun rydym wedi:

- adolygu'r cynllun blaenorol;
- cymryd i ystyriaeth y cyd-destun deddfwriaethol newidiol sy'n llywio ac yn sylfaen i'n gwaith fel Cyngor;
- ystyried canfyddiadau Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar;
- alinio ein cynllun ag amcanion rhanbarthol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru;
- ymgynghori â'r cyhoedd, gweithwyr, pobl o grwpiau nodweddion gwarchoddedig a sefydliadau sy'n eu cynrychioli er mwyn deall anghydraddoldebau sy'n effeithio ar bobl Wreccsam; a
- dadansoddi data sydd ar gael i ni.

2. Ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb [Cymru] 2011

Ystyr cydraddoldeb yw: 'Cymdeithas gyfartal sy'n diogelu ac yn hyrwyddo rhyddid go iawn a chyfle i fyw mewn ffordd a gaiff ei gwerthfawrogi a'i dewis gan bobl, fel y gall pawb ffynnu. Mae cymdeithas gyfartal yn cydnabod gwahanol anghenion, sefyllfaoedd a nodau pobl ac yn cael gwared ar y rhwystrau sy'n cyfyngu ar yr hyn y gall pobl ei wneud a bod.' [CLILC, Fframwaith Gwella Cydraddoldeb i Gymru, 2012]

Fe wnaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 ddwyn ynghyd nifer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth i ddarparu un fframwaith cyfreithiol i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anfantais yn fwy effeithiol. Mae'r Ddeddf yn nodi'r grwpiau o bobl sy'n benodol wedi'u rhestru fel rhai â '**nodweddion gwarchoddedig**':

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd

- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaethau Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

Nodweddion lleol ychwanegol

Yn ogystal â'r anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl o'r grŵp nodweddion gwarchoddedig, rydym ni'n cydnabod bod unigolion a chymunedau dan bwysau cynyddol oherwydd amgylchedd economaidd y DU, newidiadau i'r system Budd-daliadau, gostyngiadau disgwylidig mewn gwasanaethau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol a chyfrifoldebau gofalu. Felly, rydym ni'n cynnwys Tlodi a Gofalwyr fel **nodweddion lleol ychwanegol** at ddibenion y Cynllun hwn.

Y Gymraeg

Nid yw hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Yn hytrach, mae'r gofynion yn cael eu nodi ym Mesur y Gymraeg 2011. Mae manylion ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn cefnogi'r Gymraeg wedi eu nodi yng Nghynllun Iaith y Cyngor

http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/documents/welsh_language_scheme.htm

Trwy gymryd golwg ehangach ar y nodweddion gwarchoddedig rydym ni'n annog dull mwy cyfannol i ddiwallu anghenion yr holl gymunedau wrth ddylunio neu ddarparu ein gwasanaethau. Mae'r diagram yn **Atodiad 2** yn dangos sut mae'r CCS a Chynllun y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Dyletswyddau Sector Cyhoeddus

Cyflwynodd y Ddeddf Cydraddoldeb ddyletswydd sector cyhoeddus newydd sy'n gofyn i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, hyrwyddo cydraddoldeb. Yn benodol, mae'n rhaid i ni ddangos:

Sylw dyledus i'r angen i:	Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:
1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.	Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, neu eu lleihau, y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig.
2. Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai sydd ddim.	Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd gwarchoddedig a'r rhai sydd ddim.	Cymryd camau i adeiladu cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn perthyn ac yn gyfforddus yn cymysgu ac yn rhyngweithio ag eraill.

Mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru **ddyletswyddau cyfreithiol penodol** hefyd a nodir yn rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011. Amlinellir y rhain yn **Atodiad 3**. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn disgrifio sut y bydd y Cyngor yn diwallu'r dyletswyddau hyn.

3. **Adborth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [CCHD]**

Mae adborth gan y CCHD ar y pedair blynedd cyntaf o weithredu Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru wedi nodi nifer o feysydd gwella y byddwn yn ceisio bwrw ymlaen â nhw drwy ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

- Monitro a dadansoddi cydraddoldeb;
- Rheoli perfformiad i gynnwys canlyniadau cydraddoldeb; ac
- Effeithiau cronol yn cael eu nodi ac yn cael sylw.

4. **Cyd-destun deddfwriaethol sy'n newid**

Mae'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn newid. Mae nifer o ddarnau newydd o ddeddfwriaeth wedi cael eu cyflwyno a fydd yn dylanwadu ar waith y Cyngor ac felly bydd yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae'r dyletswyddau cyffredinol yn cael eu hymgorffori ym musnes prif ffrwd y Cyngor a'u gweithredu.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014;
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015; a
- Deddf Tai [Cymru] 2014.

5. **Y Cyngor a Chynllun ein Cyngor**

Fel sefydliad, rydym yn cael ein hysgogi gan Gynllun ein Cyngor. Mae'r Cynllun yn datgan mai pwrpas Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yw 'sicrhau fod pobl Wreccsam yn derbyn cymorth ac yn cael eu galluogi i gyrraedd eu potensial ac i lwyddo.'

O ganlyniad i Gynllun y Cyngor, rydym yn glir iawn ynglŷn â:

- Beth rydym eisiau ei gyflawni i bobl Wreccsam; ein pwrpas;
- Y gwaith y byddwn yn canolbwyntio arno; ein themâu strategol; a'r
- Egwyddorion sy'n llywio ein gwaith.

Mae Cynllun y Cyngor yn nodi tair thema strategol:

- Yr Economi - Creu economi fywiog, amrywiol a chynhwysol.
- Y Bobl - Codi dyheadau, creu hyder a hyrwyddo cyfleoedd.
- Lle - Buddsoddi mewn cymunedau deniadol, diogel a chynhwysol.

Mae'r rhain yn cael eu tanategu gan bedwaredd thema gorfforaethol:

- Sefydliad - Ymdrechu am ragoriaeth.

Mae ein gwaith hefyd yn cael ei arwain gan gyfres o egwyddorion:

- Dinasyddion, Cwsmeriaid a Chydraddoldeb yn ganolbwynt ein holl ymdrechion;
- Aelodau Etholedig yn arweinwyr cymunedol, yng nghanol pob penderfyniad; a
- Chefnogi ac annog cwsmeriaid a staff i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae copi o Gynllun y Cyngor ar gael yma:

http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/documents/council_plan_w.htm

Fodd bynnag, gwyddom fod rhai pobl neu grwpiau o bobl yn llai tebygol o gyflawni eu potensial a ffynnu nag eraill. Mae pobl gyda 'nodweddion gwarchoddedig' yn llai tebygol o brofi manteision y gwaith hwn ac yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu. Nid

yw hyn yn dderbyniol. Rydym eisiau i fanteision yr hyn a wnawn fod ar gael yn gyfartal i bawb sy'n byw, yn gweithio, yn ymweld neu'n buddsoddi yn y Fwrdeistref Sirol. Mae ein gwaith ymchwil a dadansoddi mewn perthynas â Chynllun y Cyngor wedi datgelu meysydd posibl o anghydraddoldeb. Mae hyn wedi ein galluogi i nodi a blaenoriaethu'r materion y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â nhw fel Amcanion cydraddoldeb Strategol. Dyma pam bod ein cynllun Cydraddoldeb Strategol yn hanfodol i waith y Cyngor.

6. Newidiadau yn y boblogaeth a phroffil demograffig

Bydd ein proffil demograffig yn effeithio ar y galw ar y Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ystod oes Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20. Mae Cyngor Wrecsam wedi ymrwymo i roi blaenoriaeth i'r rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau. Bydd y gwaith sy'n cael ei ddatblygu drwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol at y dull cyffredinol hwn a bydd yn sail i newidiadau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau.

Mae manylion ein proffil demograffig yn **Atodiad 4**, gan gynnwys:

- Y Cyngor; a'r
- Gymuned [data'r Cyfrifiad a phroffil Cydraddoldeb].

7. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru

Nod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [CCHD] yng Nghymru yw bod pawb yn cael y cyfle i wireddu eu potensial ac i ffynnu. Yn bwysig, mae'r nod hwn yn cael ei rannu gan y Cyngor a'i ddangos trwy ein gwaith o ddarparu Cynllun y Cyngor.

http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/documents/council_plan_w.htm

Mae adroddiad y CCHD 'A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2015' yn nodi saith her genedlaethol allweddol. Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

1. Lleihau bylchau cyrhaeddiad mewn addysg.
2. Annog recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg mewn cyflogaeth.
3. Gwella amodau byw mewn cymunedau cydlynol.
4. Cynyddu mynediad at gyfiawnder ac annog cyfranogiad democrataidd.
5. Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chymorth i bobl sy'n profi iechyd meddwl gwael.
6. Atal cam-drin, esgeulustod a thriniaeth gwael mewn gofal a chadw.
7. Dileu trais, cam-drin ac aflonyddu yn y gymuned.

Mae'r dadansoddiad hwn wedi llywio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 a bydd camau gweithredu perthnasol yn cael eu hymgorffori yn ein Cynllun Gweithredu Strategol.

Mae adroddiad y CCHD 'A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2015 'ar gael yn:

<http://www.equalityhumanrights.com/cy/llunio-dyfodol-cydraddoldeb-hawliau-dynol>

8. Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2016-20

Cadarnhaodd ymgynghoriad cyhoeddus, pobl â nodweddion gwarchoddedig a staff y Cyngor, bod yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol blaenorol yn dal yn berthnasol.

Mae tudalennau canlynol y Cynllun hwn yn disgrifio pob un o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol:

- Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog;

- Lleihau anghydraddoldeb mewn iechyd;
- Lleihau anghydraddoldeb mewn addysg;
- Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol;
- Lleihau anghydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a llais; a
- Lleihau anghydraddoldeb wrth gael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd.

Mae data ategol yn **Atodiad 5**:

- Y Cyngor;
- Y Gymuned;
- Data sy'n ymwneud â phob Amcan Cydraddoldeb Strategol; a
- Dogfennau Cefndir.

Ar gyfer pob amcan, byddwn yn amlinellu:

- lle rydym nawr yn defnyddio ein dadansoddiad o rai o'r materion anghydraddoldeb gan ddefnyddio data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- enghreifftiau o bethau rydym wedi'u gwneud yn barod;
- yr hyn a gafodd ei ddweud gan bobl yn yr ymgynghoriad; ac
- yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud.

Amcan Strategol 1: Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog

Ble rydym ni nawr

- Mae gan Wrecsam % is o hawlwr budd-dal o oedran gweithio na'r cyfartaledd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r data hefyd yn dangos bod ardaloedd daearyddol o bwys lle mae % o hawlwr budd-dal oedran gweithio yn sylweddol uwch na chyfartaledd Wrecsam;
- Yn gyffredinol, mae gan Wrecsam % is o hawlwr Lwfans Ceisio Gwaith na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r % o hawlwr Lwfans Ceisio Gwaith bron ddwywaith cyfartaledd Wrecsam mewn rhai ardaloedd daearyddol;
- Mae'r % o bobl yn Wrecsam sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Anableded Difrifol yn Wrecsam yn is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae bron yn ddwbl cyfartaledd Wrecsam mewn rhai ardaloedd;
- Mae'r % gyffredinol o rieni unigol sy'n hawlio budd-daliadau yn Wrecsam yr un fath â chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae bron yn dair gwaith cyfartaledd Wrecsam mewn rhai ardaloedd;
- Mae'r lefel gyffredinol o ddiweithdra yn Wrecsam yn is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae pocedi o ddiweithdra sylweddol.
- Mae'r % o bobl yn Wrecsam mewn cyflogaeth llawn amser a rhan amser yn uwch na chyfartaledd Cymru;
- Mae'r % o blant yn Wrecsam mewn teuluoedd incwm isel ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae ardaloedd o Wrecsam lle mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd Wrecsam. Rydym yn cydnabod, er bod hyn yn cyflwyno darlun cadarnhaol cyffredinol o Wrecsam, bod rhai cymunedau yn profi llawer o'r materion a nodwyd uchod, e.e. dwysedd poblogaeth sy'n uwch na'r cyfartaledd; cyfraddau diweithdra uwch na'r cyfartaledd; ac amrywiaeth cymunedol uwch na'r cyfartaledd.

Mae'r data hwn yn tanategu'r gwaith a dargedir sydd eisoes yn cael ei wneud gan y Cyngor mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Drwy'r CCS byddwn hefyd yn ystyried anghenion ardaloedd o angen y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

O ran y Cyngor

- Mae'r Cyngor yn cyflogi mwy o ferched na dynion;
- Mae mwy o ferched mewn gwaith rhan amser yn y Cyngor na dynion;
- Mae ychydig dros hanner o holl weithwyr y Cyngor yn y graddfeydd cyflog isaf; ac
- Mae mwy o ferched ar y graddfeydd cyflog isaf na dynion.

Enghreifftiau o waith a wnaed hyd yn hyn:

- Darparu cymorth yn y gymuned i gynyddu cyflogadwyedd mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog;
- Rhoi mynediad am ddim at y rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd ar gyfer ceiswyr gwaith;
- Datblygu 'Adduned Cyflogwr' i annog cyflogwyr lleol i wneud y gorau o gyfleoedd hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion;
- Cefnogi dros 125 o fusnesau lleol i wella eu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Diogelu £8.1 miliwn mewn taliadau budd-dal drwy waith Budd-daliadau Lles
- Cynhyrchu taflen Gwobrwyon Cyflawn i roi mwy o fynediad at wybodaeth am amrywiaeth o gynlluniau arbed arian i staff y Cyngor; a gwella ein prosesau monitro cydraddoldeb staff.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor yn http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Dywedodd pobl yn Wrecsam:

Cafodd y pwysigrwydd o gyflogaeth o ansawdd da, sicr, ei amlygu gan bob grŵp. Fodd bynnag, roedd pryder nad oedd canfyddiadau o amrywiaeth yn y gweithle yn gyson gadarnhaol. Codwyd cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer profiad gwaith, neu hyfforddiant hygyrch sy'n gysylltiedig â gwaith, fel materion sy'n cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth i bobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae cludiant cyhoeddus yn cael ei ystyried yn ddull pwysig ar gyfer cefnogi pobl i weithio. Felly, mae darparu cludiant cyhoeddus hygyrch yn bryder allweddol.

Tynnwyd sylw hefyd at wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau cyflogaeth ymysg pobl â nodweddion gwarchoddedig hefyd. Roedd barn gref y dylai cyflog cyfartal gael ei hyrwyddo ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat.

Amlygwyd gwahaniaethu yn y gweithle fel pryder ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig. Yn benodol roedd pobl yn awyddus i weld hawliau cyflogaeth yn cael eu hyrwyddo e.e.

- Hawliau beichiogrwydd a mamolaeth a hawl absenoldeb rhiant; a
- Gweithio'n hyblyg i gefnogi ymrwymiad ac anghenion personol e.e. Cyfrifoldebau gofalu, anghenion cysylltiedig ag iechyd

Codwyd nifer o bryderon ymarferol mewn perthynas â cheisiadau swydd ar-lein a chefnogi pobl â nodweddion gwarchoddedig yn y gweithle, e.e.

- Nid yw ceisiadau digidol am swyddi bob amser yn hygyrch; a

- Mwy o gymorth i bobl ag anghenion cymorth yn y gweithle.

Gweler yr Adroddiad Ymgynghoriad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Daeth ymchwil ac ymgynghori Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i'r casgliad bod angen:

- Nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu; a
- Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog rhwng pobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol.

Beth rydym am ei wneud:

I wneud gwahaniaeth cadarnhaol i anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog byddwn yn:

- Gweithredu a chyflawni Strategaeth Ffyniant Economaidd, y Strategaeth Gwrth-dlodi a'r Strategaeth Datblygiad Sefydliadol a Gweithlu
- Gwella monitro cydraddoldeb a dadansoddiad;
- Parhau i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Symud ymlaen â chamau gweithredu penodol yn codi o ymgynghoriad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; a
- Pan yn bosib ac yn briodol, cyfrannu at drosglwyddo Amcanion Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru 2016-2020

Amcan Strategol 2: Lleihau anghydraddoldeb mewn iechyd

Ble rydym ni nawr

- Mae canran y bobl sydd dros eu pwysau neu'n ordew yn Wrecsam yn parhau i gynyddu, o ran niferoedd go iawn, ac o gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad ar hyn o bryd ar yr un cyfartaledd â Chymru.
- Mae canran yr oedolion sy'n smygu wedi parhau i ostwng, o 26% i 19% dros y tair blynedd diwethaf, ac mae bellach yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae lefelau gordewdra ymysg plant 4/5 oed wedi codi o 24.9% i 29.4%.
- Mae iechyd meddwl gwael yn un o brif achosion problemau cymdeithasol ac iechyd ehangach:
 - Lefelau isel o gyflawniad addysgol a chynhyrchiant gwaith;
 - Lefelau uwch o glefydau corfforol a marwolaeth; a
 - Thrais, tor-perthynas a chydlyniant cymunedol gwael.

[Ffynhonnell: Dogfen gefndir ac ymchwil Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru 2015]

Enghreiffiau o waith a wnaed hyd yn hyn:

- Mabwysiadu'r Siarter Urddas Mewn Gofal;
- Llai o restrau aros a mwy o fynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed;
- Cyflwyno'r Cynllun Ysgol Iechyd ym mhob ysgol;
- Cyflwyno'r cynllun Ychwanegu at Fywyd sy'n canolbwyntio ar wella iechyd pobl hŷn;
- Gwell mynediad cyffredinol a mynediad i bobl anabl at Barc Brynkinalt;
- Creu ardal chwarae synhwyrdd ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun;
- Darparu digwyddiad Iechyd a Lles staff yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl. Roedd staff nad oeddent yn gallu mynd i'r digwyddiad yn cael pecyn gwybodaeth;
- Mae pob ysgol yn parhau i wneud cynnydd tuag at y Wobr Ansawdd Genedlaethol ar gyfer Ysgolion Iach, sy'n cefnogi ysgolion i weithredu gweithgareddau gwella iechyd. Yn unol â'r targed cenedlaethol, mae 96% o'n hysgolion wedi cyrraedd cam tri, ac mae pump wedi cyrraedd y lefel uchaf; a
- Hwyluso prosiect cymorth Trawsrywedd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn cydweithrediad â VIVA; a
- Mae'r Cyngor wedi dangos ei ymrwymiad i gefnogi iechyd a lles staff drwy gyflawni gwobr aur yn y Safon Iechyd Gorfforaethol.

Mae gwybodaeth fanwl ar gael yn Adroddiadau Blynyddol CCS:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Dywedodd pobl yn Wrecsam:

Cafodd mynediad at wasanaethau cefnogi iechyd meddwl ei amlygu gan bob grŵp. Yn benodol, roedd pobl yn awyddus i weld gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i bobl Drawsryweddol, Sipsiwn a Theithwyr ac mewn perthynas â Cham-drin Domestig a Dioddefwyr a Throseddwy'r Trais Rhywiol.

Roedd pobl yn pryderu hefyd bod unrhyw effeithiau negyddol cronol o doriadau yng nghyllidebau'r Cyngor ac iechyd yn cael eu deall a'u lleihau lle bo'n bosibl.

Gweler yr Adroddiad Ymgynghoriad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Daeth ymchwil ac ymgynghori Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i'r casgliad bod angen:

- Cynyddu nifer y bobl mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n dewis ffyrdd iach o fyw
- Cynyddu nifer y bobl mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd;
- Gwella gofal pobl i sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch, yn enwedig pobl hŷn a phobl ddiamddiffyn;
- Cynyddu'r Sipsiwn a Theithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ataliol;
- Sicrhau bod pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol yn cael eu trin ag urddas a pharch wrth gael gofal; a
- Sicrhau bod hawliau a dyheadau pobl â phroblemau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cael gwell sylw.

Beth rydym am ei wneud:

I wneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran lleihau anghydraddoldeb mewn iechyd byddwn yn:

- Gweithredu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wrecsam, Cynllun Busnes Bwrdd Darparu Partneriaeth 1, y Strategaeth Gwrth Diodi; a Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Gweithlu'r Cyngor;
- Gwella monitro cydraddoldeb a dadansoddiad;
- Parhau i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb; a
- Symud ymlaen â chamau gweithredu penodol yn codi o ymgynghoriad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r rhain wedi'u manylu yn y cynllun gweithredu yn Atodiad 2, a
- Pan yn bosib ac yn briodol, cyfrannu at drosglwyddo Amcanion Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru 2016-2020

Amcan Strategol 3: Lleihau anghydraddoldeb mewn Addysg

Ble rydym ni nawr

- **Cyfnod Sylfaen** – Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn Wrecsam yn y Cyfnod Sylfaen yn fwy nag yng Nghymru, er bod cyfradd gwelliant yn Wrecsam y seithfed mwyaf yng Nghymru. Yng Nghymru, mae genethod yn perfformio'n well na bechgyn o 7.8% ac yn Wrecsam mae genethod yn perfformio'n well na bechgyn o 9.2%
- **Cyfnod Allweddol 2** – Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 2 yn llai nag yng Nghymru a'r ail welliant mwyaf yng Nghymru. Mae Cymru yn 5.8% a Wrecsam yn 5.2%. Ar Lefel 5+ [ac eithrio mathemateg], mae gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn Wrecsam yn fwy na Chymru.
- **Cyfnod Allweddol 3** – Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 3 yn fwy nag yng Nghymru ac mae'r gwelliant cyffredinol yn is na'r gwelliant ar draws Cymru. Yng Nghymru, mae'n 7.4% ac yn Wrecsam, mae'n 9.9%. Ar Lefel 6+ [ac eithrio mathemateg], mae gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn Wrecsam yn fwy na Chymru.
- **Cyfnod Allweddol 4** - Canran y bechgyn yn Wrecsam yn cyflawni L2+ Trothwy Cynhwysol Lefel 2 [cyfateb i gyfanswm o 5 TGAU graddau A * i C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg] oedd 48.74%. Canran y merched sy'n cyflawni L2+ yn Wrecsam oedd 55.64%. Mae hyn yn cyfateb i wahaniaeth rhwng y rhywiau yn Wrecsam o 6.91%. Y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yng Nghymru yn yr un dangosydd oedd 7.47%.

[Ar gyfer diffiniadau o Gyfnodau allweddol gweler Atodiad 5]

Perfformiad dysgwyr sy'n newydd i'r Saesneg - Saesneg fel iaith Ychwanegol:

- Mae Wrecsam y pedwerydd uchaf o ran y boblogaeth â Saesneg fel iaith Ychwanegol yng Nghymru.

- Canran y disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol oedd yn cyflawni Dangosydd Canlyniad y Cyfnod Sylfaenoedd 80.5%.
- Canran y disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol oedd yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 oedd 73.6%.
- Canran y disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol oedd yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 oedd 79.0%.
- Mae 31% o'r garfan Saesneg fel Iaith Ychwanegol wedi gwella gan un neu fwy o lefelau rhwng Ionawr 2014 ac Ionawr 2015.

Enghreifftiau o waith a wnaed hyd yn hyn:

- Mae Grŵp Gwella Addysg wedi cael ei sefydlu a Chynllun Gweithredu Gwella Addysg [2014-17] yn ei le;
- Gostyngodd canran y bobl ifanc a oedd yn gadael Blwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ymhellach o 3.2% yn 2013 i 1.8% yn 2014. Mae hyn yn llawer is na chyfartaledd Cymru, sef 3.1%;
- Cynyddodd canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n parhau mewn addysg llawn amser yn 2014 i 84.8%.
- Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer siaradwyr Portiwgaleg drwy gyrsiau cymunedol Saesneg fel Iaith Ychwanegol;
- Mae gan bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal gynllun addysg personol; a
- Hyrwyddwyd llythrennedd blynyddoedd cynnar trwy Ddigwyddiadau Llenyddol Plant mewn llyfrgelloedd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adroddiadau Blynyddol CCS:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Dywedodd pobl yn Wreccsam:

Prif ffocws yr adborth ar faterion addysg oedd atal bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion. Teimlwyd bod hyn yn agwedd bwysig ar gefnogi pobl ifanc a lleihau'r bwloch cyrhaeddiad.

Nodwyd cymorth hyfforddiant i ysgolion ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i fwrw ymlaen â chydraddoldeb mewn addysg. Roedd pobl hefyd yn awyddus i weld mwy o ddealltwriaeth o effaith anabledd ar gyrhaeddiad addysgol pobl ifanc; gan arwain at gynnydd yn hygyrchedd ysgolion.

Gweler yr Adroddiad Ymgynghoriad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Daeth ymchwil ac ymgynghori Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i'r casgliad bod angen:

- Lleihau'r bwloch cyrhaeddiad addysgol rhwng gwahanol grwpiau;
- Lleihau bwlio ar sail hunaniaeth mewn Addysg; a
- Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n ddigonol wrth wneud y cam pontio rhwng addysg a chyflogaeth.

Beth rydym am ei wneud:

I wneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran lleihau anghydraddoldeb mewn addysg byddwn yn:

- Gweithredu'r Cynllun Gwella Addysg; Strategaeth Cymraeg mewn Addysg; Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wrecsam, Cynllun Busnes Bwrdd Darparu Partneriaeth 2; Strategaeth Gwrth Diodi; a Strategaeth Tai Lleol.
- Gwella monitro cydraddoldeb a dadansoddiad;
- Parhau i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb; a
- Symud ymlaen â chamau gweithredu penodol yn codi o ymgynghoriad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; a
- Pan yn bosib ac yn briodol, cyfrannu at drosglwyddo Amcanion Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru 2016-2020

Amcan Strategol 4: Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol

Ble rydym ni nawr

- Mae merched yn fwy tebygol o brofi cam-drin gan bartneriaid a thrais rhywiol na dynion;
- Mae dynion yn profi cam-drin gan bartneriaid a thrais rhywiol;
- Mae pobl ag anabledd yn llai tebygol o adrodd cam-drin gan bartneriaid neu drais rhywiol;
- Mae troseddau casineb sy'n gysylltiedig â hil yn fwy tebygol o gael eu hadrodd, ond nid oes digon o bobl yn roi gwybod am hyn a phob categori arall o gasineb ac aflonyddu'n seiliedig ar hunaniaeth; a
- Mae camddefnyddio sylweddau ac alcohol, iechyd meddwl a thlodi yn ffactorau pwysig sy'n gallu cynyddu breguster pobl i droseddu. Mae'n rhaid i waith lleihau troseddau hefyd fynd i'r afael â'r ffactorau hyn.

Enghreifftiau o waith a wnaed hyd yn hyn:

- Gweithredu polisi Cam-drin Domestig yn y Gweithle;
- Cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol i fynd i'r afael â Throseddau Casineb a rhoi hyfforddiant ar droseddau casineb;
- Rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n profi bwlio ac aflonyddu yn y gwaith yn seiliedig ar hunaniaeth;
- Cefnogi datblygiad dull rhanbarthol Gogledd Cymru i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Modern;
- Diweddarau canllawiau gwrth-fwlio i rieni, disgyblion ac ysgolion;
- Darparu'r Prosiect Ysbrydoli lle cafodd pobl ifanc ag ymddygiad hunan-niweidio gefnogaeth

- Enillodd tair o ysgolion Wrecsam wobrau yng nghystadleuaeth flynyddol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth [Cymru]; a
- Mae hyfforddiant cam-drin domestig aml-asiantaeth bellach yn cynnwys sesiynau ar faterion Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Hŷn.

Mae gwybodaeth fanwl ar gael yn Adroddiadau Blynyddol CCS:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Dywedodd pobl yn Wrecsam:

Nodwyd mynd i'r afael â throeddau casineb a bwlio fel pryder allweddol ar draws yr holl grwpiau, yn enwedig oherwydd yr effaith negyddol a gaiff ar yr unigolyn ac ar y gymdeithas ehangach. Er mwyn cefnogi mwy o gynhwysiant cymdeithasol, teimlwyd y dylai'r gwaith i fynd i'r afael â gwahaniaethu hefyd gynnwys gwaith i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at amrywiaeth a chysylltiadau cymunedol da.

Nodwyd materion diogelwch ehangach fel diogelwch y ffyrdd a diogelwch tân. Yn benodol, roedd pobl yn awyddus bod mwy o ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol o anghenion a materion sy'n ymwneud â phobl ag anableddau corfforol neu nam ar y golwg. Mae angen cael mwy o ddiogelwch ar y ffyrdd ac ymwybyddiaeth diogelwch tân yn y gymuned hefyd.

Roedd neges gref iawn gan bobl am yr angen i ystyried effaith ymarferol celfi stryd ar bobl sydd â nam ar eu golwg. Nodwyd 'Byrddau A' hyrwyddol fel pryder iechyd a diogelwch penodol.

Mynegodd Pobl ag Anableddau Dysgu awydd cryf i Wrecsam ddatblygu Cynllun Man Diogel yng nghanol y dref. Cytundeb yw hwn gyda siopau canol tref ac adeiladau cyhoeddus penodol bod cymorth ar gael i bobl ag Anableddau Dysgu, pe byddent â phroblemau wrth ymweld â chanol y dref.

Gweler yr Adroddiad Ymgynghoriad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Daeth ymchwil ac ymgynghori Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i'r casgliad bod angen:

- Cynyddu'r weithred o roi gwybod am droseddau casineb ac aflonyddu a chymryd camau i leihau achosion o droseddau casineb ac aflonyddwch, gan gynnwys cam-drin a bwlio ar-lein;
- Cynyddu'r weithred o roi gwybod am gam-drin domestig a chymryd camau i leihau cam-drin domestig; a
- Chynyddu ymwybyddiaeth mewn cymunedau diamddiffyn ynghylch twyll ar y ffôn ac ar-lein.

Beth rydym am ei wneud:

I wneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol byddwn yn:

- Gweithredu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wrecsam; Cynllun Busnes Bwrdd Darparu Partneriaeth 3 a Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Gweithlu'r Cyngor.
- Gwella monitro cydraddoldeb a dadansoddiad;
- Parhau i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb; a
- Symud ymlaen â chymau gweithredu penodol yn codi o ymgynghoriad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; a
- Pan yn bosib ac yn briodol, cyfrannu at drosglwyddo Amcanion Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru 2016-2020.

Amcan Strategol 5: Lleihau anghydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a llais

Ble rydym ni nawr?

- Mae amrywiaeth Wrecsam yn golygu bod rhai grwpiau nas clywir yn aml yn fach iawn, a gall hyn ei gwneud yn anodd wrth ffurfio casgliadau sy'n ddilys yn ystadegol;
- Y dull ymgynghori mwyaf cyffredin a ddefnyddir yw arolwg, nad yw bob amser y dull mwyaf priodol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig;
- Mae angen monitro cydraddoldeb yn well er mwyn nodi pa grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig sydd ar goll o'r data ymgynghori.

Enghreifftiau o waith a wnaed hyd yn hyn:

- Rydym wedi datblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu 2013 - 2017 i'n helpu i wella ein dealltwriaeth o anghenion, barn a phrofiadau pobl, drwy ymgynghori ac ymgysylltu.
Rydym yn gweld hwn fel dull allweddol ar gyfer deall anghenion ein cwsmeriaid a hysbysu ein datblygiadau gwasanaeth.
- Sefydlu Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb i gefnogi'r broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Gweithredu Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid; a
- Pharhau i gefnogi Senedd Yr Ifanc (Senedd Ieuenctid Wrecsam).

Mae gwybodaeth fanwl ar gael yn Adroddiadau Blynyddol CCS:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Dywedodd pobl yn Wrecsam:

Mae adborth gan bob grŵp yn dangos awydd i fod yn fwy o ran yn y prosesau gwneud penderfyniadau. Byddai hyn yn gofyn am gymorth ychwanegol ar gyfer rhai grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig, e.e. Gofalwyr, pobl ag anabledd.

Mynegwyd pryder ynghylch gwybodaeth a phrofiad rhai staff proffesiynol mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth. Amlygwyd mwy o ymwybyddiaeth o anghenion a materion, ac ystyriwyd y broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb fel dull pwysig ar gyfer cynnwys barn y gymuned wrth wneud penderfyniadau.

Mae manylion ynghylch adborth yr ymgynghoriad ar gael yn yr Adroddiad Ymgynghori. Gellir dod o hyd iddo ar y ddolen ganlynol o dan y pennawd, Pwyllgor Craffu – Adroddiadau Drafft

Gweler yr Adroddiad Ymgynghoriad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:
http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru

Cadarnhaodd ymgynghoriad ac ymchwil gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru'r negeseuon allweddol hyn:

- Mae angen i gyrrff gwneud penderfyniadau ddod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu;
- Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Sector Lleol a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp a ddiogelir.

Beth rydym am ei wneud:

I wneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran lleihau anghydraddoldeb mewn cynrychiolaeth a llais byddwn yn:

- Gweithredu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wrecsam; Cynllun Busnes Bwrdd Darparu Partneriaeth 3, ein Strategaeth Canolbwyntio ar y Cwsmer; Strategaeth Iaith Gymraeg; Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu; Strategaeth Cyfathrebu; a Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Gweithlu.
- Gwella monitro cydraddoldeb a dadansoddiad;
- Parhau i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Symud ymlaen â champau gweithredu penodol yn codi o ymgynghoriad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; a
- Pan yn bosib ac yn briodol, cyfrannu at drosglwyddo Amcanion Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru 2016-2020.

Amcan Strategol 6: Lleihau anghydraddoldeb wrth gael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Ble rydym ni nawr?

- Mae canran y cwsmeriaid sy'n teimlo ei bod yn hawdd cael gwasanaethau'r Cyngor wedi gostwng ychydig o 99%, ond, mae'n parhau i fod yn uchel, sef 96%.
- Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru bod 52% o bobl yn teimlo bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, o'i gymharu â 57% yn genedlaethol ac mae'r arolwg mwyaf diweddar a gyhoeddwyd wedi dangos dirywiad lleol i 45%. Ond, mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru wedi amlygu mai dim ond 1.7% o'r gwahaniaeth rhwng sgoriau boddhad awdurdod lleol sy'n dibynnu ar y gwahaniaethau yn y gwasanaethau yn hytrach na gwahaniaethau mewn poblogaeth;
- Yn yr un modd, mae canran y bobl leol sy'n teimlo bod y Cyngor yn ystyried barn trigolion wrth wneud penderfyniadau wedi cynyddu i 28% o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 25%. Ond, mae'r arolwg diweddaraf yn dangos gostyngiad sylweddol i 18%, tra bod y cyfartaledd cenedlaethol ond wedi gostwng i 21%;

Engbreiffiau o bethau rydym wedi'u gwneud hyd yn hyn:

- Gwell cysylltedd electronig / Band Eang;
- Mae staff allweddol yn Galw Wrecsam wedi cael hyfforddiant mewn Iaith Arwyddion Prydain;
- Roedd gwaith i fwrw ymlaen ag Uwchgynllun Canol y Dref a'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cynnwys gweithgareddau ymgynghori wedi'u targedu er mwyn nodi ac ymdrin â materion mynediad;
- Cyflwynodd llyfrgell Wrecsam categori benthyciwr newydd ar gyfer pobl ddigartref oedd yn eu galluogi i ymuno â'r gwasanaeth llyfrgell a chael mwy o fynediad at wasanaethau;
- Mae adran yr Amgylchedd wedi cefnogi 8,000 o bobl i fanteisio ar y cynllun parcio rhatach Bathodyn Glas i bobl ag anawsterau cerdded difrifol;
- Mae adran yr Amgylchedd wedi darparu amserlen bws ddiwygiedig mewn fformatau hygyrch;
- Mae adran yr Amgylchedd wedi dechrau bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau bod pob bws yn Wrecsam yn gwbl hygyrch. Bydd bysiau unllawr yn gwbl hygyrch o 1 Ionawr 2016, a'r holl fysiau deulawr o 1 Ionawr 2017.
- Fe gefnogodd adran yr Amgylchedd Glwb Pysgota Acton i greu llwyfan hygyrch i bobl anabl gael gwell mynediad at y llyn pysgota;
- Fe wnaeth y tîm Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid wella'r cyfleusterau hunanwasanaeth yn Galw Wrecsam, gan gynnwys gwell mynediad i gadeiriau olwyn a bysellfwrdd gwelededd uchel;
- Mae Gwybodaeth i Ofalwyr wedi cael ei gwella gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n cynnwys pecynnau gwybodaeth sydd ar gael yn llyfrgell Wrecsam ac ar y rhyngwyd. Darparwyd hyfforddiant i Ofalwyr wella eu sgiliau a'u hyder, a chynhwysiant cymdeithasol; a
- Mae Pwynt Mynediad Sengl wedi cael ei ddatblygu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu mynediad at wybodaeth, cyngor, cymorth ac asesiad.

Mae gwybodaeth fanwl ar gael yn Adroddiadau Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Beth ddywedodd pobl yn Wrecsam:

Amlygwyd mynediad fel mater sylweddol ar draws yr holl grwpiau gwarchoddedig. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amrywiaeth yn ôl y math o fynediad a oedd ei angen.

Hawl i Wybodaeth

Amlygwyd mynediad at wybodaeth yn benodol gan bob grŵp. Cydnabuwyd bod cynhwysiant digidol yn opsiwn mynediad pwysig i lawer o bobl, e.e. pobl â symudedd cyfyngedig. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad yw digidol yn gweithio ar gyfer pob grŵp e.e. rhai pobl sydd â nam ar eu golwg, rhai pobl hŷn a phobl ar incwm isel gyda mynediad cyfyngedig at sgiliau neu offer TG.

Datblygiad mwy diweddar ar draws y sector cyhoeddus yw'r Un Pwynt Cyswllt i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus. Ystyrir bod hyn yn ddefnyddiol iawn i lawer o bobl, ond gallai arwain at broblemau posibl ar gyfer pobl eraill â materion mynediad.

Mynediad at Wasanaethau

Cafodd Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu hamlygu fel y ffordd allweddol i'r sector cyhoeddus wella darpariaeth gwasanaeth a datblygu gwasanaethau. Mae awydd am ddull mwy cydweithredol gyda phob grŵp sydd am gefnogi'r broses Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, roedd pryder bod angen gwella cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod anghydraddoldeb yn cael ei nodi.

Tynnwyd sylw at hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff fel bod yn ganolog i wella mynediad at wasanaethau.

Mynediad i Adeiladau

Mae mynediad i adeiladau cyhoeddus yn parhau i fod yn broblem yn enwedig i bobl sydd â nam corfforol neu synhwyraidd. Amlygwyd bod angen cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dylunio a chynnal manau cyhoeddus hygrych. Dylai hyn gynnwys adolygiad o arwyddion cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r newidiadau mewn lleoliadau gwasanaeth ar draws y sector cyhoeddus.

Mynediad at yr Amgylchedd

Cydnabuwyd bod mynediad at yr amgylchedd yn bwysig i bawb. Roedd barn gref iawn y bydd mynediad at yr amgylchedd yn cael ei wella lle mae dull cydweithio rhwng Cynllunwyr a chymunedau. Yn benodol, dylai pobl sydd ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau, pobl hŷn a phobl ifanc gymryd rhan weithredol mewn cynllunio a datblygu manau cyhoeddus.

Gweler yr Adroddiad Ymgynghoriad Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb:

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Daeth ymchwil ac ymgynghori Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i'r casgliad bod angen:

- Gwella mynediad at wybodaeth, cyfathrebu a phrofiad y cwsmer, ac yn enwedig i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau; a
- Gwella mynediad corfforol at wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a manau agored.

Beth rydym am ei wneud:

I wneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran lleihau anghydraddoldeb wrth gael mynediad at wasanaethau, gwybodaeth, adeiladau a'r amgylchedd, byddwn yn:

- Gweithredu Cynllun Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol; Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wrecsam; Cynllun Busnes Bwrdd Darparu Partneriaeth 3; Strategaeth Gwrth-dlodi; Strategaeth Canolbwyntio ar y Cwsmer; Strategaeth Iaith Gymraeg; Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu; Strategaeth Cyfathrebu; a Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Gweithlu.
- Gwella monitro cydraddoldeb a dadansoddiad;
- Parhau i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Symud ymlaen â chymau gweithredu penodol yn codi o ymgynghoriad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; a
- Pan yn bosibl ac yn briodol, cyfrannu at drosglwyddo Amcanion Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru 2016-2020

9. Prosesau sylfaenol

Sut byddwn yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'n bwysig bod Aelodau Etholedig a staff y Cyngor yn cael yr hyder, y wybodaeth, y sgiliau a'r agwedd hanfodol i fodloni'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o waith codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn generig, y mae angen i'r holl weithwyr fod yn ymwybodol ohonynt. Bydd hyfforddiant arall yn gysylltiedig yn fwy penodol â rolau swyddi unigol a bydd yn eu cynorthwyo i weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn cynnwys:

- Rhaglenni cyflwyniad corfforaethol ar gyfer Aelodau Etholedig a staff;
- Gweithdai penodol ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Codi ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth arbenigol e.e. troseddau casineb, ymwybyddiaeth Trawsryweddol;
- Modiwlau e-ddysgu:
 - Deddf Cydraddoldeb 2010;
 - Cydraddoldeb yn y gweithle;
 - Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
 - Mynd i'r afael â Throseddau Casineb;
 - Monitro Tyndra Cymunedol; a
 - Hyrwyddo Cysylltiadau Da.
- Gwybodaeth a dogfennau canllaw e.e. Sesiynau briffio cydraddoldeb Dyma Wrecsam;
- Newyddlen cydraddoldeb i staff ac Aelodau Etholedig; a
- Phroses Adolygu Perfformiad a Datblygu Gyrfa blynyddol i staff

sy'n cynnwys ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth fel gofyniad safonol.

Sut y byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb wrth gaffael

Mae canllawiau ar gydraddoldeb yn cael eu rhoi gan Dîm Caffael y Cyngor, gyda gwybodaeth arfer gorau ar gael i swyddogion trwy Gynllunydd Llwybr Caffael Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae manylebau contract a chytundebau yn cynnwys cymalau cydraddoldeb penodol sy'n ymwneud ag amcanion cydraddoldeb y Cyngor a dyletswyddau cyfreithiol fel y bo'n berthnasol ac yn gymesur â'r contract unigol.

10. Sicrhau Ansawdd

Darparu

Mae'r cyfrifoldeb am gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gorwedd gyda:

Cyfrifoldeb gwleidyddol:

Aelodau Etholedig sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a sicrhau bod effeithiau ar gydraddoldeb yn cael sylw priodol wrth wneud penderfyniadau am fusnes y Cyngor.

Mae'r Aelod Arweiniol dros Gydraddoldeb yn rhoi cymorth cyffredinol i ddatblygu a chyflawni'r cynllun.

Cyfrifoldeb y Swyddog:

Mae'r cyfrifoldeb dros gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gorwedd gyda'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Mae Penaethiaid Adrannau yn gyfrifol am sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio drwy waith yr adran, gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae'r Rheolwr Amrywiaeth Cymunedol yn darparu arweiniad a chefnogaeth ar sut y gellir gweithredu'r amcanion ac yn cymryd cyfrifoldeb am fonitro gweithrediad. Bydd y Rheolwr Amrywiaeth Cymunedol hefyd yn cydlynu Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb a'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb, gweler Atodiad 6 am ragor o wybodaeth.

Bydd timau adrannol yn defnyddio data gwasanaeth i ddeall proffil eu cwsmeriaid a darpar gwsmeriaid. Mae data'r Cyfrifiad yn cael ei ddefnyddio i nodi tan-gynrychiolaeth neu or-gynrychiolaeth o grwpiau â nodweddion gwarchodedig o fewn meysydd gwasanaeth penodol. Mae hyn yn galluogi adrannau i gytuno ar gamau gweithredu a gosod targedau.

Mae dadansoddiad o gyfraddau boddhad, cwynion, adborth gan gwsmeriaid a gwybodaeth gymunedol yn ein helpu i nodi meysydd o wahaniaethu posibl ac yn mynd i'r afael â thensiynau cymunedol e.e.

- Mae arolygon Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cynnwys monitro cydraddoldeb;
- Mae dadansoddiad o gwynion cwsmeriaid gan yr adrannau yn nodi meysydd posibl o wahaniaethu sydd yna'n cael sylw; a
- Gwybodaeth tensiwn cymunedol bosibl yn cael ei chasglu a'i hadolygu. Lle bo angen, mae camau aml-asiantaeth angenrheidiol yn cael eu cydlynu gan y Cyngor.

Bydd y camau gweithredu yn cael eu manylu mewn cynlluniau gwasanaeth adrannol a'u sefydlu o fewn Adolygiad Perfformiad staff unigol a chynlluniau Datblygu Gyrfa.

Sut byddwn yn asesu effeithiau ar gydraddoldeb

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ddiwygiedig wedi'i datblygu ar y cyd â'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys sgrinio ac offeryn asesu cyfunol sydd ar gael ar-lein ac ar bapur. Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys:

- Rhifau adnabod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd hefyd yn cyfeirio at yr adran sy'n rhoi awdurdod;
- Dylunio sythweledol sydd wedi dileu'r angen am hyfforddiant ar lenwi'r ffurflen;
- Fformat yn cynnwys nodi effeithiau cadarnhaol yn ogystal â rhai negyddol posibl;
- Fformat yn galluogi dolenni electronig ag ymgynghori perthnasol a dogfennau eraill;
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel gofyniad safonol o fewn yr adroddiadau gwneud penderfyniadau;
- Proses adolygu annatod ar gyfer diweddaru Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ôl gweithredu'r penderfyniadau; a
- Gellir cael mynediad at Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau yn electronig gan Aelodau Etholedig.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Cydymffurfio

Mae'r cyfrifoldeb am gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gorwedd gyda Chyfarwyddwyr Strategol a Phenaethiaid Adrannau. Mae trefniadau Cydraddoldeb y Cyngor yn amodol ar archwiliadau a fydd yn rhoi sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a roddwyd ar waith gan y Pennaeth Adran.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Cyhoeddi

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ofynnol o fewn pob adroddiad gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau i'r Cyngor Llawn ac i'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar wefan y Cyngor. Mae copïau caled o'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael ar gais.

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb

Gan y bydd y camau hyn yn cael eu gwasgaru ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth o'r Cyngor, i adlewyrchu'r ystod eang o gamau gweithredu rydym yn eu gwneud, byddant yn cael eu dwyn ynghyd mewn 'cynllun gweithredu' Cydraddoldeb. Bydd hyn yn egluro, mewn un lle, y gwahanol gamau sy'n cael eu datblygu i gyflawni pob Amcan Cydraddoldeb Strategol yn ystod 2016-17. Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol diwygiedig yn eu lle i adlewyrchu ein cynnydd tuag at gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 4 blynedd ac unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Yn y modd hwn, mae llinellau cyfrifoldeb clir ar draws y sefydliad a dull cydlynol at sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn ystyried ac yn ymateb i'r amcanion cydraddoldeb strategol a nodwyd.

Oherwydd bod ad-drefnu gwasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r ymateb cyffredinol i ostyngiadau yng nghyllideb y Cyngor, mae'r adran sy'n gyfrifol yn debygol o newid yn ystod oes y Cynllun hwn. Senior management team

Monitro

Er mwyn gwella effeithiolrwydd ein trefniadau monitro byddwn yn mabwysiadu'r dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Bydd hyn yn ein helpu i ganolbwyntio ar ganlyniadau i'r dinasyddion yn hytrach nag ein prosesau ni. Felly bydd ein mesurau o lwyddiant yn canolbwyntio ar yr hyn a wnaethom yn well; nid faint a wnaethom.

Lle bydd gennym wybodaeth waelodlin, byddwn yn defnyddio hon i ddangos maint y gwelliannau a wnaed gennym. Lle nad oes gennym wybodaeth waelodlin, bydd hwn yn gam cyntaf allweddol i ni.

Bydd monitro ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn cael ei wneud trwy Gynllun y Cyngor. Mae hyn yn cael ei adolygu bob chwarter gan Aelodau Etholedig a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Adolygu

Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn i adlewyrchu cynnydd, materion sy'n dod i'r amlwg a'r adnoddau sydd ar gael.

Byddwn yn parhau i adolygu ein hamcan cydraddoldeb ac yn ei ddiwygio o leiaf bob pedair blynedd. Yn benodol, byddwn yn eu hadolygu fel rhan o'r ffordd rydym yn datblygu Cynllun Lles Cenedlaethau'r Dyfodol Wreccsam.

Byddwn yn cynnwys cwsmeriaid a dinasyddion wrth adolygu cynnydd ar ein hamcanion ac wrth osod rhai newydd.

Adrodd

Byddwn yn monitro ein cynnydd bob chwarter ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei ystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Corfforaethol. Bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

11. Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, cysylltwch â'r:

Tîm Amrywiaeth Cymunedol
Rhif Ffôn: 01978 292000
E-bost: onewrexham@wrexham.gov.uk

12. Atodiadau

1. Sut y gwnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
2. Diagram i ddangos sut mae'r CCS a Chynllun y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i bobl â nodweddion gwarchoddedig.

3. Dyletswyddau cyfreithiol penodol a nodir yn rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 [Cymru] 2011.
4. Gwybodaeth gefndir:
 - Y Cyngor
 - Y Gymuned - data'r Cyfrifiad a phroffil Cydraddoldeb
5. Gwybodaeth ategol am bob Amcan Cydraddoldeb Strategol, dogfennau cefndir ac ymchwil
6. Cylch Gorchwyl:
 - Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb; a
 - Grŵp Gwella Cydraddoldeb
7. Geirfa

ATODIAD 1

Sut y gwnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig

Amserlen ar gyfer datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20	
Mis	Cam Gweithredu
Ebrill 2015	Cytunwyd ar gynllun datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20.
Mai – Awst 2015	Ymgynghori ag adrannau'r Cyngor mewn perthynas â chynlluniau allweddol y Cyngor sy'n sail i Gynllun y Cyngor.
Mai – Awst 2015	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Sgrinio gyda Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb.
Medi - Hydref 2015	Ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Arolwg ar-lein;• Cyfarfodydd a gweithdai wyneb yn wyneb;• Grŵp Gwella Cydraddoldeb;• Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb;• Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru; ac• Ymgynghori â chydweithwyr CBSW.
Medi - Hydref 2015	Adolygu data a thystiolaeth ymchwil, gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol ac adborth yr ymgynghoriad rhanbarthol.
Hydref - Tachwedd 2015	Cadarnhau Amcanion Cydraddoldeb Strategol a nodi camau drafft ar gyfer pob amcan.
Tachwedd – Rhagfyr 2015	Adborth yr ymgynghoriad yn cael ei rannu gydag adrannau'r Cyngor i nodi a chytuno ar gamau gweithredu priodol o fewn y staff ac adnoddau ariannol sydd ar gael.
Rhagfyr 2015	Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft i Bwyllgor Archwilio Cwsmeriaid, Perfformiad, a Llywodraethu i'w ystyried.
Ionawr - Chwefror 2016	Ymgynghoriad cyhoeddus terfynol.
Chwefror - Mawrth 2016	Cwblhau Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20
Mawrth 2016	Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol.
Ebrill 2016	Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

ATODIAD 2

Diagram i ddangos sut mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i bobl â nodweddion gwarchoddedig:

Diagram i ddangos sut mae'r CCS a Chynllun y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i bobl â nodweddion gwarchoddedig													
Nodwch: Nid yw Gofalwyr, Tlodi ac iaith Gymraeg a diwylliant yn nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb Strategol 2010 ond rydym wedi eu cynnwys nhw oherwydd eu bod yn ystyriaethau pwysig wrth i ni ddatblygu a darparu ein gwasanaethau.													
Gofalwyr	Oedran Plant/Pobl Ifanc	Oedran Oedolion	Anab ledd	Rhywedd / Rhyw	Beichiogrwydd a Mamolaeth	Hil / Ethnigrwydd	Crefydd neu Gred	Cyfeiriadedd Rhywiol	Priodas a Phartneriaethau Sifil	Ailbennu rhywedd	Tlodi	Iaith Gymraeg / diwylliant	
Economi: Creu economi fywiog, amrywiol a chynhwysol													
Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√
Pobl: Codi dyheadau, creu hyder a hyrwyddo cyfleoedd													
Lleihau anghydraddoldeb mewn iechyd	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√
Lleihau anghydraddoldeb mewn addysg	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√
Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√
Lleihau anghydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a llais	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√
Lle: Buddsoddi mewn cymunedau deniadol, diogel a chroesawgar i bawb													
Lleihau anghydraddoldeb au wrth gael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd.	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√

Sefydliad: Ymdrech u am Ragoriaeth

Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√
Casglu data cydraddoldeb, dadansoddi a monitro	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√
Effeithiau cronnus	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√	√

ATODIAD 3

Dyletswyddau cyfreithiol penodol a nodir yn rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 [Cymru] 2011.

Mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswyddau cyfreithiol penodol hefyd a nodir yn rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 [Cymru] 2011:

- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb bob 4 blynedd;
- Gweithgareddau ymgysylltu a chyfranogi ar gyfer grwpiau â 'nodweddion gwarchoddedig'
- Sicrhau bod yr holl ddeunydd cyhoeddedig yn hygyrch;
- Asesu effaith polisïau a chynlluniau perthnasol;
- Hyfforddiant a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth;
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf Cydraddoldeb ar draws y sefydliad;
- Mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog annheg;
- Defnyddio arferion caffael i gyfrannu at gyflawni amcanion cydraddoldeb; ac
- Adolygu cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.

ATODIAD 4

Gwybodaeth gefndir

Y Cyngor

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 52 o Gynghorwyr, pob un yn cynrychioli un o'r 52 o wardiau etholiadol yn Wrecsam. Maent yn cael eu hethol yn ddemocrataidd bob pedair blynedd. O'r aelodau etholedig, mae 45 yn ddynion a 7 yn ferched.

Mae gan y Cyngor 3,854 o weithwyr:

- Pan ddosberthir gweithwyr y Cyngor i gategoriâu oedran [ac eithrio gweithwyr mewn ysgolion], mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn perthyn i'r categori 45 i 54 oed sydd ychydig yn uwch na data'r Cyfrifiad.
- Yn ôl adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru [2009], mae gan 18.6% o'r boblogaeth oedran gweithio yn Wrecsam anabledd. Mae ystadegau'r Cyngor [ac eithrio gweithwyr ysgolion] yn dangos, ymhlith gweithlu'r Cyngor lleol, fod 0.5% o weithwyr yn nodi fod ganddynt anabledd.
- Caiff data ethnigrwydd gweithwyr ei gymryd o wybodaeth a ddarperir yn wirfoddol gan weithwyr ar yr Holiadur Monitro Cydraddoldeb a roddir iddynt ar gychwyn eu cyflogaeth ac ar adegau gwahanol drwy gydol eu gyrfu [ac eithrio gweithwyr ysgolion]. Nid oes digon o ddata i ddarparu gwybodaeth ystadegol ddilys oherwydd cyfradd ymateb isel i'r holiadur.

Y Gymuned

Er mwyn datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig, mae'n bwysig ein bod yn deall:

- pwy sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Bwrdeistref Sirol Wrecsam; ac

- unrhyw anghydraddoldeb neu annhegwch yn y modd y mae gwahanol grwpiau o bobl yn cael mynediad at wasanaethau Cyngor.

Dros y 10 mlynedd diwethaf tyfodd poblogaeth gyffredinol Wrecsam yn gyson i oddeutu 135,000 o bobl ac mae bellach yn fwy amrywiol nag erioed o'r blaen.

Cyfanswm y boblogaeth breswyl 2014			
	Wrecsam [niferoedd]	Cymru [niferoedd]	Prydain Fawr [niferoedd]
Yr holl bobl	136,700	3,092,000	62,756,300
Dynion	68,100	1,521,300	30,890,900
Merched	68,600	1,570,700	31,865,400

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gwybodaeth gan Uned Ddata Cymru - InfoBase Cymru 2014:

Dangosydd	Wrecsam	Cymru
Dwysedd poblogaeth fesul km2	271/km2	149/km2
% Newid yn y boblogaeth 2010-14 [cynhwysol]	2.0%	1.4%
Nifer y newid yn y boblogaeth 2010 -14 [cynhwysol]	2,705	42,065
% gwyn	96.9%	95.6%
% arall	3.2%	4.4%
% a anwyd yng Nghymru	69.2%	72.7%
% wedi'u geni yn y DU ond nid yng Nghymru	24.5%	21.9%
% wedi'u geni yn y DU gan gynnwys Cymru	93.7%	94.6%
% wedi'u geni mewn gwlad arall yn yr UE	3.7%	2.2%
% a anwyd y tu allan i'r UE	2.6%	3.3%
% a anwyd y tu allan i'r DU	6.3%	5.5%

Mae'r data hwn yn awgrymu bod:

- Y boblogaeth yn Wrecsam yn cynyddu'n gyflymach na chyfartaledd Cymru;
- Y lefel gyfartalog o amrywiaeth yn Wrecsam yn is na chyfartaledd Cymru, ond mae pocedi lle mae amrywiaeth y gymuned yn fwy crynodedig;
- Wrecsam â lefel uwch o ddwysedd poblogaeth na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, gan fod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn wledig yn bennaf, mae hyn yn golygu bod amrywiaeth Wrecsam yn cael ei chrynhai yn yr ardaloedd trefol; a
- Mae'r ganran yn Wrecsam a anwyd yng Nghymru yn is na chyfartaledd Cymru. Mae gan Wrecsam hanes hir o fewnfudo. Mae'r data yn awgrymu bod y mwyafrif o bobl yn Wrecsam na chawsant eu geni yma yn dod o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae gan Wrecsam 22 o wardiau a gafodd eu dosbarthu'n wledig gan Lywodraeth Cymru yn ystod datblygiad Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2006 - 2013. Mae'r wardiau hyn yn aros yr un fath ar gyfer y cyfnod 2014 - 2020. O ganlyniad, mae 94% o arwynebedd Wrecsam yn cael ei ddiffinio fel cefn gwlad. O ganlyniad, mae 60% o gyfanswm poblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn byw mewn ardal wledig. Mae'n bwysig nodi y gall natur wledig gael effaith sylweddol:

- llai o fynediad at wasanaethau;
- llai o fynediad at gludiant hygyrch; a
- chostau cludiant cynyddol.

Gall y ffactorau hyn gyfuno â nodweddion gwarchoddedig personol eraill, i gynyddu pa mor agored yw unigolyn i allgau ac anghydraddoldeb.

Gan ddefnyddio gwybodaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys adborth Cyfrifiad 2011 ac ymgynghoriad cenedlaethol, mae'r amrywiaeth hon yn cael ei chrynhai isod yng nghydestun nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/index.html?utm_source=twitterfeed&utm_medium=twitter

Nodwedd gwarchoddedig	Ystadegau
Oedran - Oedolion a Phobl Hŷn	Mae 74.8% o bobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn oedolion dros 18 oed. Mae hyn yn gyfanswm o 105,807 o bobl. Mae pobl hŷn 65+ oed yn cyfrif am y gyfran fwyaf [54%] o gleientiaid gofal cymdeithasol Wrecsam.
Oedran - Plant a Phobl Ifanc	Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gartref i 134,844 o bobl. Er bod oedran y boblogaeth gyffredinol yn adlewyrchu cyfartaledd Cymru, mae Wrecsam yn gartref i mwy o bobl ifanc na chyfartaledd Cymru.
Anabledd	Mae 1 o bob 5 o bobl yn Wrecsam yn cael cyfyngiad ar eu gweithgareddau bob dydd oherwydd afiechyd; 27,905 o bobl. <u>Gall anabledd fod yn:</u> <ul style="list-style-type: none"> • Gorfforol • Synhwyrdd • Deallusol • Iechyd meddwl ac emosiynol • Datblygol • Anableddau anweladwy
Rhywedd	Mae 50% o bobl yn Wrecsam yn ferched; 67,792 o bobl. Mae 50% o bobl yn Wrecsam yn ddynion; 67,052 o bobl.
Ailbennu rhywedd	Mae amcangyfrifon cenedlaethol yn awgrymu bod rhwng 140 a 650 o bobl sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn rhan o'r gymuned Drawsryweddol.
Priodas a Phartneriaethau Sifil	Mae 52,154 o bobl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam wedi priodi, a 151 o bobl wedi cofrestru partneriaethau sifil o'r un rhyw
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Roedd 6.8% o fabanod a anwyd yn Wrecsam yn gynamserol o gymharu â chyfartaledd Cymru o 7.1%. Roedd 5.5% o fabanod a anwyd yn Wrecsam o bwysau geni isel o gymharu â chyfartaledd Cymru o 5.4%.
Crefydd a Chred	Mae 64% o bobl sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn diffinio eu hunain yn Gristnogion. Mae 27% yn ystyried eu hunain heb unrhyw grefydd. Mae amrywiaeth eang o gredoau crefyddol eraill yn Wrecsam gan gynnwys Mwslim, Hindŵ, Bwdhaidd a Sikh.

	Mae rhywle rhwng 7,000 a 9,500 o bobl yn Wrecsam yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon bod rhwng 5 a 7% o boblogaeth y DU yn lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol.
Hil ac Ethnigrwydd	Mae 93.1% o bobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Wyn Cymreig / Gwyn Prydeinig. 6.9%; 9,100 o bobl yn dod o amrywiaeth eang o wahanol gefndiroedd ethnig a chenedligrwydd.
Blaenoriaeth gorfforaethol	Ystadegau
Gofalwyr	Mae 15,237 o bobl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu gofal di-dâl i rywun arall. Mae mwy na 4,000 o bobl yn darparu dros 50 awr o ofal di-dâl bob wythnos. Mae gofalwyr yn cynnwys oedolion, plant a phobl ifanc.
Iaith Gymraeg a diwylliant	Gall 15.4% o bobl leol siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru o 21.3%
Tlodi	Mae 18% o blant ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn byw mewn tlodi. Mae naw o wardiau yn Wrecsam lle mae o leiaf 1 o bob 4 o blant yn byw mewn tlodi.

ATODIAD 5

Gwybodaeth ategol a dogfen gefndir ac ymchwil

1. Cyflogaeth a thâl

Dangosydd	Wrecsam	Cymru
% o bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau	15%	16.2%
% o bobl oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith	2.3%	2.4%
% o bobl oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, budd-dal analluogrwydd neu lwfans anabledde difrifol	7.2%	8.6%
% o bobl oedran gweithio sy'n hawlio lwfans byw i'r anabl, lwfans gweini neu anafiadau diwydiannol	1.5%	1.4%
% o bobl oedran gweithio sy'n hawlio Cymhorthdal Incwm gyda phlentyn o dan 16 oed a dim partner	1.3%	1.3%
% o bobl 16-74 oed sy'n ddi-waith	3.3%	3.5%
% o bobl ddi-waith 16-74 oed sy'n Ddi-waith yn y Tymor Hir	25.2%	31.3%
% o bobl 16-74 oed sy'n gweithio'n llawn amser	40%	36.2%
% o bobl 16-74 oed sy'n gweithio'n rhan amser	12.2%	11.3%
% o bobl 16-74 oed sy'n hunan-gyflogedig	6.9%	7.7%
% o blant mewn teuluoedd incwm isel	19.1%	20.8%

Ffynhonnell: Uned Ddata Cymru 2014

Ystadegau cyflogaeth staff CBSW:

		Merched	Cyfanswm
Cyfrif Pennau	1,000	2,114	3,114
Cyferwerth â llawn amser	948.31	1,599.1	2,547.41

Cyfradd yr awr o gyflog	Merched	Dynion	Cyfanswm
Hyd at £10.00	38%	13%	52%
£10.01 i £15.00	18%	8%	26%
£15.01 i £20.00	8%	5%	13%
£20.01 i £25.00	1%	1%	2%
£25.01 +	0%	0%	1%
Anhysbys	3%	4%	7%
Cyfanswm	68%	32%	100%

2 : Addysg


Diffiniadau o Gyfnodau Allweddol

- Cyfnod Sylfaen Darpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr 3 - 7 oed [Babanod]
- Cyfnod Allweddol 2 Darpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr 8 - 11 oed [Iau]
- Cyfnod Allweddol 3 Darpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr 12 - 14 oed
- Cyfnod Allweddol 4 Darpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr 15 - 16 oed
- Dangosydd Canlyniad y Cyfnod Sylfaen -Mae hwn yn mesur faint o ddysgwyr a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r meysydd dysgu mewn cyfuniad
- Dangosydd Pwnc Craidd - Mae hwn yn mesur o faint o ddysgwyr a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r pynciau craidd [h.y. Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth] mewn cyfuniad.
- Trothwy Cynhwysol Lefel 2 - Swm o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n gyferwerth â swm o 5 TGAU gradd A*-C, gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, a mathemateg.


3: Iechyd

Oedolion yn Wrecsam sydd dros bwysau

Plant oedran dosbarth derbyn sydd dros bwysau neu'n ordew




60% Coch



24.9% Gwyrdd

Daw'r wybodaeth o Arolwg Iechyd Cymru ac fe'i cyhoeddir flwyddyn ar ei hôl hi - 2013/14 yw'r data diweddaraf


Canran o Oedolion Wrexham sy'n ysmygwyr cyfredol



19% - Gwyrdd

Ffynhonnell: CBSW Canolbwyntio ar Ein Perfformiad 2014-15

4. Diogelwch personol



Troseddau a Throseddau Casineb a Gofnodwyd

- Bwlch gwybodaeth sylweddol o wir faint y troseddau casineb oherwydd nad oes digon o bobl yn rhoi gwybod amdanynt;
- Dengys data Cymorth i Ddiodefwr bod 148 o Droseddau Casineb/digwyddiadau wedi'u hadrodd iddynt yng Ngogledd Cymru rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2014;
- Roedd gan Fwrdeistref Sirol Wrexham y nifer uchaf [24%] yng Ngogledd Cymru;
- O'r rhai y rhoddyd gwybod amdanynt, troseddau casineb/digwyddiadau sy'n gysylltiedig â hil yw'r rhai mwyaf cyffredin ar draws Gogledd Cymru [80%] a Wrexham [77%].

Tyndra cymunedol

- Dengys data CBSW yn 2012-13 roedd 44 o achosion o Dyndra Cymunedol wedi'u hadrodd, yn 2013-14 roedd 25 wedi'u hadrodd, 20 yn 2014-15 a 19 hyd yma yn 2015-16 wedi cael eu hadrodd;


- Nid oes digon o ddata i ddod i gasgliadau penodol neu nodi tueddiadau o ran daearyddiaeth neu gymunedau risg uchel, ond mae agweddau tuag at fudo'n parhau i fod yn elfen gyffredin.

Cam-drin gan Bartner


- Amcangyfrifir bod 21% o ddiodefwyr cam-drin gan bartner yn rhoi gwybod i'r heddlu.
- Roedd 61% o ddiodefwyr o dan 35 oed
- Dengys data Damweiniau ac Achosion Brys Gogledd Cymru fod y rhan fwyaf [35%] o dderbyniadau i'r ysbyty mewn perthynas â cham-drin gan bartner yn 18-24 oed.

Ffynhonnell: Asesiad Anghenion Strategol ar gyfer Is-grŵp Bwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam – Bwrdd Darparu Partneriaeth 3.

5. Cynrychiolaeth a Llais



6. Mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd



Dogfennau Cefndir ac ymchwil:

Teitl	Ffynhonnell
Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol CBSW 2011 - 2015	Tîm Amrywiaeth Cymunedol http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm
Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb Staff Blynyddol CBSW 2011 - 2014	Adran Adnoddau Dynol http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm
Cynllun Cyngor CBSW	CBSW http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/documents/council_plan_w.htm
Data perfformiad a gwybodaeth monitro	Tîm Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau CBSW
Gwybodaeth Gwasanaeth cwsmeriaid e.e. <ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori â chwsmeriaid a gwybodaeth ymgysylltu • Data Defnyddiwr Gwasanaeth 	Adrannau CBSW
Taflenni data Dyma Wrecsam	Tîm Amrywiaeth Cymunedol
Dogfen gefndir ac Ymchwil ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol Rhanbarthol	Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru
Asesiad Anghenion Strategol Ionawr 2015	Bwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam - Bwrdd Datblygu Partneriaeth 3
Strategaeth Trechu Tlodi Wrecsam 2015-18	Bwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam
Cynllun Darparu Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol 2014-16	Llywodraeth Cymru
Adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoldeb yng Nghymru 2014	Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid	Cyngor Ffoaduriaid Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru
Yn gudd yng ngolau dydd. Ymholiad ynghylch aflonyddu ar sail anabledd	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Adolygiad o PSED yng Nghymru 2014	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Pa mor deg yw Cymru 2011	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Pa mor deg yw Prydain 2010	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
A yw Prydain yn Decach 2015 [diweddariad]	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
A yw Cymru'n Decach - Heriau Allweddol i Gymru 2015 [diweddariad]	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015	Llywodraeth Cymru
Adrodd Gwrth-fwlio 2014	Estyn
Cynllun gweithredu Uwch na Geiriau	CBSW
Ystadegau	SYG
Ystadegau Cryno Ardaloedd Lleol - Wrecsam	Llywodraeth Cymru
Cyfrifiad Cenedlaethol 2011	SYG

ATODIAD 6

Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb:

I gefnogi'r gwaith o ail-lunio'r Cyngor, mae gwasanaethau yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cymorth i swyddogion sy'n gwneud Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn annog cysylltiadau agosach rhwng adrannau ac unigolion a chymunedau sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys cydweithwyr mewnol ac aelodau o'r cyhoedd a all roi sylwadau ar gynigion drafft o safbwynt nodwedd benodol warchoddedig; mae cynrychiolydd ar gyfer pob nodwedd yn ogystal â Gofalwyr, y Gymraeg a Thlodi. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob mis ac yn darparu cefnogaeth ac adborth i swyddogion yn ystod y cam sgrinio o'u Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Y bwriad yw:

- sicrhau bod materion allweddol yn cael eu nodi ar gyfer nodweddion gwarchoddedig perthnasol;
- nodi unrhyw gwahaniaethu lluosog posibl a allai ddigwydd;
- nodi camau lliniaru posibl; ac
- awgrymu sianeli ymgynghori lleol lle bo hynny'n briodol.

Nid oes gan y grŵp fandad swyddogol ac mae aelodau'n mynychu ar sail wirfoddol.

Grŵp Gwella Cydraddoldeb

Mae'r tîm Amrywiaeth Cymunedol yn darparu cefnogaeth benodol i brif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Cyngor, gan gynnwys rheolaeth weithredol y Grŵp Gwella Cydraddoldeb. Dyma grŵp cydraddoldeb corfforaethol y Cyngor a fynychir gan gynrychiolwyr cydraddoldeb o bob adran.

ATODIAD 7

Geirfa termau:

Oedran: Mae hwn yn cyfeirio at berson o oedran penodol neu mewn grŵp oedran. Gall unrhyw un brofi gwahaniaethu ar sail oedran, yn unrhyw oedran, hen ac ifanc

Gwahaniaethu cyswllt: Mae hyn yn wahaniaethu uniongyrchol yn erbyn rhywun oherwydd eu bod yn cysylltu â pherson arall sydd â nodwedd warchoddedig [er enghraifft, gwahaniaethu yn erbyn gofalwr person anabl].

Gofalwyr: Mae gofalwyr yn darparu gofal di-dâl drwy ofalu am aelod teuluol, ffrind neu gymar sy'n sâl, yn fregus neu'n anabl.

Partneriaeth Sifil: Perthynas gyfreithiol y gall dau berson o'r un rhyw ei ffurfio drwy lofnodi dogfen gofrestru. Mae'n golygu trin cyplau o'r un rhyw sy'n ffurfio partneriaeth sifil yn gydradd mewn ystod eang o faterion cyfreithiol, gyda chyplau o wahanol ryw sy'n cael priodas sifil.

Gwahaniaethu uniongyrchol: Triniaeth sy'n llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig rhywun. Er enghraifft, byddai recriwtio ymgeisydd gwrywaidd i swydd yn hytrach na merch sy'n fwy cymwys oherwydd safbwyntiau afresymol, rhagfarnllyd neu ystrydebol yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Mae bwriadau a chymhellion yn amherthnasol mewn achosion o wahaniaethu uniongyrchol, oherwydd y weithred sy'n anghyfreithlon, nid bwriad y tu ôl iddo.

Anabledd: Mae unigolyn yn anabl os oes ganddynt nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd arferol.

Anabledd [model meddygol]: Mae'r model meddygol yn diffinio anabledd fel 'problem' o fewn nam yr unigolyn. Mae'r model meddygol yn dweud, trwy wella eu cyrff, bydd pobl anabl yn gallu cymryd rhan yn y gymdeithas fel pawb arall. Mae hwn yn fodel hen ffasiwn nad yw'n cael ei gefnogi gan bobl anabl neu eu sefydliadau.

Anabledd [model cymdeithasol]: Yn y model cymdeithasol, diffinnir anabledd fel problem a grëir gan gymdeithas - yn benodol y modd y mae sefydliadau, gwasanaethau a systemau wedi'u cynllunio neu eu trefnu. O ganlyniad, mae pobl â namau yn cael eu hanablu gan gymdeithas a'u gwahardd o weithgareddau prif ffrwd. Fel hyn, nid yw 'anabledd' yn ymwneud â thermau meddygol, ond yn ymwneud â rhwystrau corfforol, cymdeithasol, agweddol ac amgylcheddol.

Ymgysylltu: Term cyffredinol sy'n cwmpasu amrywiaeth o ffyrdd y mae sefydliadau'n rhyngweithio â defnyddwyr eu gwasanaethau a'u gweithwyr, yn ogystal â'r hyn a wnânt wrth ddarparu gwasanaethau neu o fewn perthynas gyflogaeth ffurfiol.

Gwybodaeth gydraddoldeb: Yr wybodaeth sydd gennych [neu y byddwch yn ei chasglu] am bobl â nodweddion gwarchoddedig a fydd yn eich helpu i ddangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd cydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys y canfyddiadau o ymgysylltu â grwpiau gwarchoddedig ac eraill a warchodir ac effaith eich polisïau ar grwpiau gwarchoddedig. Mae'n cynnwys gwybodaeth ansoddol a meintiol, yn ogystal â thystiolaeth o ddadansoddiad rydych wedi'i wneud.

Rhywedd: Mae rhywedd yn derm a ddefnyddir i nodi'r rolau cymdeithasol disgwylidig sydd ynghlwm â bod yn ddyn neu'n ferch. Mae cymryd 'persbectif rhywedd' yn golygu edrych ar wahân ar wahanol anghenion a phrofiadau dynion a bechgyn a merched a genethod.

Ailbennu rhywedd: Dyma'r broses o newid o un rhyw i un arall.

Aflonyddu: Gellir diffinio aflonyddu fel ymddygiad digroeso a allai greu'r effaith o darfu ar urddas person neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus sy'n ymyrryd ag amgylchedd dysgu, gweithio neu gymdeithasol unigolyn, neu'n peri straen, pryder, ofn neu salwch ar ran y person yr aflonyddir arnynt.

Gall gwahaniaethau o ran agwedd, cefndir neu ddiwylliant a chamddehongli arwyddion cymdeithasol olygu nad yw'r hyn a ystyrir yn aflonyddu gan un person, yn ymddangos fel aflonyddu i berson arall; serch hynny, nid yw hyn yn ei wneud yn dderbyniol.

Mae'n anghyfreithlon aflonyddu ar rywun oherwydd eu nodwedd. Mae hefyd yn drosedd aflonyddu ar rywun yn gyson [neu stelcian].

Asesu effaith: Mae Asesu Effaith yn arf ar gyfer adnabod effaith polisïau a gwasanaethau'r Cyngor ar bobl leol a gweithwyr. Mae'n sicrhau bod polisïau newydd a diwygiedig yn cyflawni gofynion deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu a chydaddoldeb ac yn helpu darparu gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion y gymuned. Mae gan sefydliadau ddyletswydd statudol i fesur effaith cydraddoldeb yr holl arferion gweithio.

Fel arfer mae gan y broses asesu ddau gam:

- *sgrinio cychwynnol* ar gyfer effaith ar gydraddoldeb, ac wedi'i ddilyn o bosibl gan

- asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb *llawn* sy'n fwy manwl, lle mae'n rhaid archwilio effaith bosibl sylweddol neu bwysig ar gydraddoldeb.

Gwahaniaethu anuniongyrchol: Mae hyn yn digwydd pan fo amod neu ofyniad sy'n cael ei gymhwyso'n gyfartal yn rhoi person â nodwedd warchoddedig dan anfantais. Er enghraifft, gallai codau gwisg sy'n gofyn i ferched wisgo sgert hyd pen-glin wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn merched o rai grwpiau diwylliannol neu grefyddol na fyddent yn teimlo y gallant wisgo yn y modd hwn.

LGBT: lesbiaidd, hoyw, deurywiol, neu drawsrywiol.

SYG: Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mamolaeth: Y cyfnod ar ôl rhoi genedigaeth. Mae'n gysylltiedig â chyfnod mamolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. Yng nghyd-destun heb fod yn gweithio, mae amddiffyn yn erbyn gwahaniaethu ar sail mamolaeth am 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth, gan gynnwys o ganlyniad i fwydo ar y fron.

Monitro: Monitro ar gyfer data cydraddoldeb i wirio a yw pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cymryd rhan ac yn cael eu trin yn deg. Er enghraifft, monitro cynrychiolaeth merched, neu bobl anabl yn y gweithlu neu ar lefelau uwch o fewn y sefydliad, i weld a yw bob grŵp yn cael cynrychiolaeth deg.

Gwahaniaethu lluosog: Yn gyffredinol, nid yw pobl yn perthyn i un gymuned yn unig, ond sawl un. Gall hyn eu gwneud yn darged o ragfarn ar fwy nag un lefel. Er enghraifft, gallai merch lesbiaidd sy'n Dsieineaidd brofi hiliaeth gan rannau o'r gymuned hoyw, homoffobia o rannau o'r gymuned Tsieineaidd, yn ogystal â hiliaeth a homoffobia cyffredinol. Gelwir hyn yn wahaniaethu lluosog ac yn ganlyniad hunaniaethau lluosog.

Mae dull prif ffrydio cydraddoldeb yn helpu i atal gwahaniaethu lluosog, gan ei fod yn cydnabod bod pawb yn perthyn i nifer o grwpiau hunaniaeth. Mae'r ymadrodd 'gwahaniaethu croestoriadol' hefyd yn cael ei ddefnyddio weithiau yn y cyd-destun hwn.

Cam gweithredu cadarnhaol: Camau gweithredu cyfreithlon sy'n ceisio goresgyn neu leihau anfantaision y mae pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig wedi eu profi, neu i ddiwallu eu hanghenion gwahanol [er enghraifft, mentora i annog staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgeisio am ddirchafiad].

Nodweddion gwarchoddedig: Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn cwmpasu'r nodweddion canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol. Cyfeirir at y rhain hefyd fel **nodweddion gwarchoddedig**. Mae'r ddyletswydd hefyd yn cynnwys priodas a phartneriaethau sifil, ond nid ar gyfer pob agwedd ar y ddyletswydd.

Hil: Dyma nodwedd warchoddedig hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir yn ôl eu lliw, eu cenedligrwydd [gan gynnwys dinasyddiaeth], tarddiad ethnig neu genedlaethol.

Addasiad rhesymol: Mae addasiad rhesymol yn newid y mae darparwr gwasanaeth neu gyflogwr yn ei wneud i alluogi pobl anabl i wneud rhywbeth, er enghraifft, darparu gwybodaeth mewn print bras neu wneud adeiladau a gwasanaethau'n hygyrch.

Crefydd neu gred: Mae crefydd yn cyfeirio at ffydd unigolyn. Mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol gan gynnwys diffyg cred. Yn gyffredinol, dylai cred

effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu'r ffordd rydych yn byw iddo gael ei gynnwys yn y diffiniad.

Rhyw: Mae hon yn nodwedd warchoddedig. Mae hyn ynghylch yw person yn ddyn neu'n ferch.

Cyfeiriadedd Rhywiol: Mae hon yn nodwedd warchoddedig. Mae hyn ynghylch a yw atyniad rhywiol person tuag at ei ryw ei hun, y rhyw arall neu'r ddau ryw.

Anfantais Economaidd-Gymdeithasol [hefyd Anfantais]: Mae'r term yn aml yn ymdrin ag ystod o faterion ac mae'n cynnwys nifer o ddiffiniadau. Ar y cyfan, mae'n cyfeirio at nifer o ffactorau cydgysylltiedig, gan gynnwys addysg, man preswyllo, iechyd, incwm, a'r amgylchedd y mae pobl yn byw ynddo. Mae'r diffiniad yn agored i newid gan fod rhaid iddo adlewyrchu amgylchiadau *cymharol* pobl, ar draws ystod o ddangosyddion, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol.

Aflonyddu Trydydd Parti: Fe allai'r Ddeddf Cydraddoldeb eich gwneud yn atebol am aflonyddu ar eich gweithwyr gan bobl [trydydd partion] nad ydynt yn weithwyr eich sefydliad, megis cwsmeriaid neu gleientiaid. Byddwch yn atebol pan fydd aflonyddu wedi digwydd ar o leiaf ddau achlysur blaenorol, rydych yn ymwybodol ei fod wedi digwydd, ac nid wedi cymryd camau rhesymol i'w atal rhag digwydd eto.

Traws: Defnyddir y termau 'pobl draws' a 'phobl drawsryweddol' yn aml fel termau cyffredinol ar gyfer pobl y mae eu hunaniaeth rhywedd a/neu fynegiant rhywedd yn wahanol i ryw eu genedigaeth, gan gynnwys pobl drawsrywiol [y rhai sy'n bwriadu cael, yn cael neu wedi bod yn cael proses ailbennu rhywedd i fyw'n barhaol yn eu rhyw newydd], trawswisgwyr / pobl croes-wisgo [y rhai sy'n gwisgo dillad a gysylltir yn draddodiadol â'r rhyw arall naill ai'n achlysurol neu'n fwy rheolaidd], pobl androgyn / amlryweddol [y rhai sydd â hunaniaeth rhyw heb fod yn ddeuaidd ac nad ydynt yn ystyried eu hunain yn ddyn neu'n ddynes], ac eraill sy'n diffinio eu hunain fel amrywiad rhwng y ddau ryw.

Trawsrywiol: Term cyffredinol am bobl y mae eu hunaniaeth o ran rhywedd a/neu fynegiant o rywedd yn wahanol i ryw eu geni. Efallai y byddant yn ceisio cael triniaeth hormonaidd/llawdriniaeth ailbennu rhywedd. Gall y term gynnwys, ond nid bod yn gyfyngedig i bobl drawsrywiol ac eraill sy'n ystyried eu hunain fel unigolion nad ydynt yn ffitio i mewn i hunaniaeth wrywaidd neu fenywaidd yn glir. Efallai y bydd pobl drawsryweddol yn dewis newid eu cyrff yn hormonaidd a/neu gyda llawdriniaeth. Dylid ond defnyddio'r term trawsrywiol fel ansoddair, er enghraifft 'pobl drawsryweddol'.

Person trawsrywiol: Person sy'n teimlo awydd cyson a llethol i drawsnewid a chyflawni eu bywyd fel aelod o'r rhyw arall. Bydd rhywun yn y sefyllfa hon â'r cyflwr meddygol, dysfforia rhywedd. Dylid ond defnyddio'r term hwn fel ansoddair: dylid cyfeirio at unigolion fel 'pobl drawsrywiol' nid 'trawsrywolion'.

Erledigaeth: Mae erledigaeth yn fath o wahaniaethu anghyfreithlon. Mae person yn cael ei erlid os ydynt yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu bod wedi gwneud 'gweithred gwarchoddedig' cyfreithiol o dan y deddfau gwrthwahaniaethu perthnasol. Er enghraifft, os ydynt wedi cyflwyno achos cyfreithiol, wedi rhoi tystiolaeth, wedi gwneud cwyn, neu gefnogi rhywun sydd wedi gwneud cwyn o wahaniaethu anghyfreithlon.

Mae erledigaeth yn anghyfreithlon os yw'n digwydd yn ystod cyflogaeth rhywun, neu ar ôl terfynu eu cyflogaeth, er enghraifft mewn cysylltiad â darparu geirdaon cyflogaeth.

Oedolion Diamddiffyn: Mae oedolyn diamddiffyn yn gyffredinol yn berson dros 18 oed sy'n cael gwasanaethau gofal cymunedol, neu eu hangen, oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran neu salwch. Efallai nad ydyw oedolyn diamddiffyn yn gallu gofalu amdano'i hun, neu methu ag amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu ecsbloetio difrifol. Bydd pa mor ddiamddiffyn yw unigolyn yn dibynnu ar ei amgylchiadau a'i amgylchedd, a rhaid ystyried pob achos yn unigol.